# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd: Mawrth 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 214A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Gwilym Bury, Siân Clark, Fflur Jones a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Yr adroddiad hwn | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 | 5 |
| Mae’r Cyngor, gyda threfniadau rheoli a chraffu ariannol cadarn, yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o’i feysydd â blaenoriaeth | 6 |
| Argymhellion | 6 |
| Adroddiad manwl | 8 |
| Perfformiad<br>Yn gyffredinol, gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran mynd i’r afael â thangyflawni a gofnodwyd yn y gorffennol, ac mae’n parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ond erys pryderon ynghylch diogelu oedolion sy’n agored i niwed | 9 |
| Y defnydd o adnoddau<br>Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol ond mae angen iddo atgyfnerthu ei ddull o gynhyrchu incwm | 19 |
| Llywodraethu<br>Mae trefniadau craffu’r Cyngor yn ategu proses gwneud penderfyniadau gadarn ac mae prosesau corfforaethol digonol ganddo i ymateb i adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol | 22 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 25 |
| Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 26 |
| Atodiad 3 – Argymhellion Adroddiadau Cenedlaethol 2015-16 | 28 |

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod.

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| **Asesiad Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. |
| **Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. |
| **Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. |
| **Rheoli Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru: Meincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad** | Adolygiad ledled cynghorau Gogledd Cymru i ymchwilio i werth dangosyddion perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol cyfredol a'r cysylltiadau, os o gwbl, â chostau. |
| **Rheoli Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygu dull y Cyngor o ymdrin â darparwyr gwasanaethau amgen** | Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i ddethol, gweithredu a monitro modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau yn llwyddiannus. |
| **Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad o'r trefniadau craffu** | Adolygiad o drefniadau craffu'r Cyngor a'u heffeithiolrwydd. |
| **AGGCC: Arolygiad o drefniadau diogelu plant sy'n derbyn gofal mewn gofal maeth** | Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn gofal maeth. |
| **AGGCC: Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2014-15** | Asesiad o berfformiad Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. |
| **Comisiynydd y Gymraeg: Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor** | Asesiad o effeithiolrwydd y Cynllun wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. |
| **Gwaith dilynol Swyddfa Archwilio Cymru** | Sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau corfforaethol priodol ar waith ar gyfer ymateb i adroddiadau, olrhain y modd y caiff argymhellion eu gweithredu a chyflwyno adroddiadau ar hyn i'r pwyllgor priodol. |
| **Adroddiadau Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru** | • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru<br>• Partneriaethau Diogelwch Cymunedol<br>• Cynhyrchu incwm a chodi tâl<br>• Trefniadau'r Cyngor ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector |

## Mae'r Cyngor, gyda threfniadau rheoli a chraffu ariannol cadarn, yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth

6 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur a sicrhau gwelliant yn ystod 2016-17. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- yn gyffredinol, gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran mynd i'r afael â thangyflawni a gofnodwyd yn y gorffennol, ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ond erys pryderon ynghylch diogelu oedolion sy'n agored i niwed;
- mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol ond mae angen iddo atgyfnerthu ei ddull o gynhyrchu incwm; ac
- mae trefniadau craffu'r Cyngor yn ategu proses gwneud penderfyniadau gadarn ac mae prosesau corfforaethol digonol ganddo i ymateb i adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol.

## Argymhellion

7 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, ceir materion â llai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ond gellir cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant. Fodd bynnag, mae'n gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 3.

9 Yn ogystal, nododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg feysydd i'w gwella yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddwyd ganddynt i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Gellir eu gweld yn www.aggcc.org.uk a www.comisiynyddygymraeg.cymru.

10 Ni chyflwynodd Estyn unrhyw adroddiadau arolygu i'r Cyngor yn ystod 2014-15.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Yn gyffredinol, gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran mynd i'r afael â thangyflawni a gofnodwyd yn y gorffennol, ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ond erys pryderon ynghylch diogelu oedolion sy'n agored i niwed

### Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion

11 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn Sir Ddinbych ond ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru. Ystyrir hyn wrth werthuso'r perfformiad yn yr awdurdod.

12 Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen[1] a dangosydd y pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ond ar gyfradd arafach na chyfartaledd Cymru. Ar gyfer y ddau ddangosydd, mae perfformiad yn 2015 oddeutu cyfartaledd Cymru.

13 Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd y pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ar gyfradd gyflymach na chyfartaledd Cymru, ac mae'n unol â meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yn 2015.

14 Yng nghyfnod allweddol 4, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg a'r sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ond ar gyfradd arafach na chyfartaledd Cymru. Yn 2015, roedd perfformiad yn y dangosydd lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg islaw'r targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog wedi cyflawni targedau meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

15 Yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim islaw cyfartaledd Cymru. Ar gyfer dwy o'r tair blynedd diwethaf, mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi bod yn well na phresenoldeb mewn awdurdodau tebyg. Yn 2015, roedd presenoldeb islaw cyfartaledd Cymru. Mewn ysgolion uwchradd, mae presenoldeb wedi bod islaw cyfartaledd Cymru ers y tair blynedd diwethaf.

1 Mae **dangosydd y Cyfnod Sylfaen** yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n cyflawni'r perfformiad disgwyliedig (canlyniad lefel 5) mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen: llythrennedd, iaith a chyfathrebu mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf; datblygiad mathemategol; a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Mae **dangosydd y pwnc craidd** yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel y disgwylir iddynt ei chyflawni mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn cyfateb i lefel 4 neu uwch yng nghyfnod allweddol 2 a lefel 5 neu uwch yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3 yn y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar asesiad athrawon. Mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn seiliedig ar gymwysterau a ddilyswyd yn allanol fel TGAU.

## Yn gyffredinol, mae gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn perfformio'n dda ond mae diogelu oedolion sy'n agored i niwed ac ansawdd llawer o asiantaethau gofal cartref yn parhau i beri pryder

16 Cyhoeddodd AGGCC ei Hadolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014/2015 ym mis Hydref 2015 ac mae ar gael ar wefan AGGCC.

17 Canfu AGGCC fod y Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da o ran ei gynllun pum mlynedd i foderneiddio ei wasanaethau cymdeithasol a fydd yn cynnwys trawsnewid patrwm gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn ogystal â newid ffurf y gweithlu a gyflogir i ddarparu gofal a chymorth. Cred y Cyngor y bydd newid diwylliannol yn ei helpu i baratoi ar gyfer rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith ac ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Caiff aelodau etholedig a staff eu briffio'n dda ac maent yn deall goblygiadau'r Ddeddf. Roedd gwaith paratoi ar gyfer hyn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys ad-drefnu'r seilwaith o uwch reolwyr, gan greu adran newydd ar gyfer gwasanaethau cymorth cymunedol yn ymgorffori gwasanaethau cymdeithasol oedolion a gwasanaethau digartrefedd, ac uno gofal cymdeithasol plant ag addysg hefyd i greu un adran ar ddechrau 2016.

18 Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio ei wasanaethau a noda AGGCC fod y Cyngor hefyd wedi rhoi proses gadarn ar waith i gasglu profiadau a safbwyntiau pobl ifanc gan gynnwys defnydd cadarn o gyfryngau cymdeithasol. Canfu'r AGGCC hefyd fod y Cyngor yn parhau i ddangos ymrwymiad, creadigrwydd a phragmatiaeth yn ei ymateb i 'Mwy Na Geiriau'[2], gyda thystiolaeth glir o gynnydd rhagorol yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn a ddangosir drwy arweinyddiaeth strategol, gwaith hyrwyddo, mynediad dwyieithog i bobl a hyfforddiant i'r gweithlu wedi'u cynllunio i wella ymwybyddiaeth a chynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, ac i wella hygyrchedd gwasanaethau cymdeithasol yn yr iaith ofynnol.

19 Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu newidiadau demograffig sylweddol o fewn hinsawdd ariannol ansicr. Canfu AGGCC dystiolaeth bwerus fod y Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu strategol er mwyn ymateb i'r heriau hyn. Mae'r Cyngor yn darparu arweinyddiaeth gadarn mewn perthynas â hyrwyddo annibyniaeth. Mae cyfarfodydd herio gwasanaethau blynyddol a threfniadau llywodraethu corfforaethol a gynhelir drwy gydol y flwyddyn yn adlewyrchu diwylliant yn y Cyngor o graffu'n effeithiol ar berfformiad gofal cymdeithasol ym maes gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

2 Cyhoeddwyd **Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol** yn 2012 gan Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal ac y cynigir gwasanaethau yn Gymraeg i'r bobl hynny sydd eu hangen.

20 Mae'r Cyngor wedi cwblhau newidiadau strwythurol mawr i'r broses o reoli gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a gwasanaethau plant. Mae dull gweithredu'r Cyngor yn cynnwys adolygu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes; cyflwyno modelau arfer arloesol; datblygu partneriaethau integredig; ac ystyried y potensial ar gyfer comisiynu rhai gwasanaethau ar sail ranbarthol. Wrth reoli ei ostyngiadau cyllidebol a newid ei ddull o ymdrin â gofal cymdeithasol rheng flaen, mae'r Cyngor wedi dewis lleihau nifer y gweithwyr cymdeithasol cymwys a gyflogir ym maes gwasanaethau oedolion gan benodi ymarferwyr gofal cymdeithasol yn eu lle. O gymharu â 2013-14 gwnaeth nifer y gweithwyr cymdeithasol leihau 19 y cant yn ystod y flwyddyn (naw swydd) a chydbwyswyd hyn drwy gyflwyno 24.8 o swyddi ymarferwyr gofal cymdeithasol cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys chwe swyddog adolygu). Mae darlun gwahanol ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol plant lle gwelwyd cynnydd yn nifer y gweithwyr cymdeithasol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 21.47 y cant (saith swydd). Er mwyn asesu effaith y newidiadau hyn ar bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion, bydd angen i'r cyngor fabwysiadu dull trylwyr o sicrhau ansawdd.
Yn 2014-15, dechreuodd y Cyngor raglen ymgynghori fanwl ar ddyfodol ei dri chartref preswyl i bobl hŷn sy'n darparu llety ar hyn o bryd i 50 o bobl ac sy'n cyflogi 100 o aelodau staff. Ceisiodd gwasanaethau oedolion, a ddaeth yn un o swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol newydd, wella ei ddull o gomisiynu yn ystod y flwyddyn.

21 Daeth AGGCC i'r casgliad bod y ddarpariaeth o ofal cymdeithasol i oedolion yn y Sir wedi gwella'n gyffredinol gyda mentrau newydd yn hyrwyddo annibyniaeth yn parhau. Mae pwyslais y Cyngor ar sicrhau y gall mwy o bobl 65 oed a throsodd barhau i fod yn annibynnol. Mae cyflwyno Un Pwynt Mynediad yn dangos model effeithiol o waith partneriaeth integredig ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd, gan ddarparu asesiad a chymorth i bobl y mae risg y bydd eu hiechyd yn gwaethygu. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y gwasanaeth wedi'i staffio'n llawn gan gynnwys staff o'r trydydd sector ac roedd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog.

22 Mae'r Cyngor yn darparu cyfeiriad ac arweinyddiaeth gadarn wrth gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar sydd ar gael i bobl hŷn. Mae Cynllun Llesiant Sir Ddinbych yn dangos cyfeiriad strategol y Cyngor wrth geisio galluogi pobl i ddod yn fwy gwydn ac annibynnol. Canfu AGGCC enghreifftiau eraill o fentrau newydd fel prosiect 'Fy Mywyd i, Fy Ffordd i' sy'n canolbwyntio ar adnoddau lleol er mwyn i bobl chwilio am gyngor a gwybodaeth a chynnal gwydnwch ac annibyniaeth. Gwnaeth y Cyngor hefyd gychwyn prosiect â'r nod o asesu ac ymyrryd mewn achosion lle mae pobl hŷn yn profi unigrwydd. Cymerodd y Cyngor ran mewn rhaglen beilot genedlaethol i ddatblygu cymunedau cymunedol, gan ei gwneud yn hawdd i'r boblogaeth leol gael gafael ar gyngor a gwybodaeth. Agorodd y gymuned gymunedol gyntaf o'r fath a oedd yn gweithredu 'sgyrsiau dan arweiniad y gymuned' yng Nghorwen.

23 O ran darparu gofal cartref, bu ffocws ar symud tuag at ddull yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau hyn, er nad yw gwaith i werthuso ansawdd yr holl ddarparwyr a'r canlyniadau i wasanaethau wedi ei gynnal eto. Nod y rhaglen beilot a gynhelir gan y Cyngor i gymhwyso'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yw sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd ymarfer gwaith cymdeithasol. Bydd hyn felly yn galw am ddull gweithredu mwy deallus a phwrpasol o gomisiynu, a bydd angen mwy o eglurder yn null y Cyngor o gomisiynu.

24 Fodd bynnag, canfu AGGCC nad oedd y Cyngor yn monitro ansawdd llawer o asiantaethau gofal cartref yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn drwy gynnal ymweliadau â phob darparwr. Cydnabu'r Cyngor y bydd angen monitro pob darparwr yn effeithiol yn ystod 2015-16. Yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu ag AGGCC, nododd y Cyngor fod 70 y cant o'r holl alwadau 15 munud i bobl yn eu cartrefi eu hunain yn 'alwadau gwirio'. Dylai monitro ansawdd gynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb yn ogystal â'r dulliau presennol a ddefnyddir, i wella cyfleoedd i wrando ar safbwyntiau pobl sy'n derbyn pob math o wasanaethau gofal cartref a'u gwerthuso. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn diwallu eu hanghenion ac yn llywio gwaith comisiynu'r Cyngor yn y dyfodol.

25 Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer gynyddol o bobl ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth yn aml o'r tu allan i'r sir a hyd yn oed y tu allan i Gymru wedi cael eu lleoli gyda darparwyr annibynnol (dros 96 y cant) yn Sir Ddinbych ond canfu AGGCC fod nifer sylweddol o bobl yn y gwasanaethau hyn yn annhebygol o fod yn hysbys i'r Cyngor ac y bydd angen iddynt efallai, ar ryw adeg, fanteisio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol, a manteisio hefyd ar ddiogelwch y prosesau diogelu a weithredir gan y Cyngor. Daeth AGGCC i'r casgliad bod angen i'r Cyngor (a phartneriaid) wneud mwy o waith i asesu a rhagweld angen ac adnoddau yn y dyfodol yn hyn o beth, ac ystyried effaith bosibl unrhyw newid o'r cymorth dwys i leoliadau cymunedol yn y sir.

26 Daeth AGGCC i'r casgliad, er y cynnydd yn y capasiti i wella prosesau diogelu oedolion agored i niwed, nid yw perfformiad mewn perthynas ag Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (PoVA) wedi gwneud y cynnydd a ragwelwyd, ac mae perfformiad yn parhau i beri pryder ac mae hyn yn risg barhaus i'r Cyngor. Ceisiodd y Cyngor atgyfnerthu capasiti drwy ymestyn rôl y rheolwyr arweiniol dynodedig. Sefydlwyd cymorth gweinyddol dynodedig hefyd tuag at ddiwedd y flwyddyn, darparwyd hyfforddiant i staff, a chynhaliwyd cyfarfodydd misol i adolygu cynnydd a rhannu ymarfer. Er gwaethaf y datblygiadau hyn, erbyn diwedd 2014-15 roedd yr un pryderon a nodwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad AGGCC y llynedd yn parhau, gan gynnwys amseroldeb a diffyg cysondeb yn y broses ddiogelu. Arsylwodd AGGCC nad oedd asiantaethau perthnasol bod amser yn ymgysylltu, yn enwedig mewn trafodaethau strategol ar gam cynnar, ac un thema a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd diffyg hyder y rheolwyr arweiniol dynodedig, a oedd yn awgrymu bod angen cymorth a hyfforddiant pellach arnynt. Mae angen eglurder hefyd ynghylch trothwy'r Cyngor ar gyfer derbyn neu wrthod atgyfeiriadau PoVA. Ers cyhoeddi'r Adolygiad Blynyddol ym mis Hydref 2015, mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â phryderon AGGCC, gan gynnwys gweithredu prosesau casglu a gwerthuso data newydd yn ymwneud â phob cam yn y broses PoVA a sicrhau bod gan bersonél Un Pwynt Mynediad y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud atgyfeiriadau mewn ffordd amserol i'r tîm PoVA. Bydd AGGCC hefyd yn cynnal adolygiad dilynol ar drefniadau PoVA yn ystod 2016.

27 Mae gwaith partneriaeth yn parhau i fod yn gryf yn Sir Ddinbych ac, fel y nodwyd y llynedd, mae wedi galluogi'r Cyngor i ddatblygu a darparu gwasanaethau wedi'u hailstrwythuro ac mae hyn wedi gwella ansawdd y gofal a ddarperir yn y sir. Cyfarfu uwch swyddogion o gynghorau Sir Ddinbych a Chonwy drwy gydol y flwyddyn er mwyn ceisio cyfleoedd i wneud gwaith partneriaeth ar y cyd ym maes gofal cymdeithasol. Noda AGGCC fod cydberthnasau ag asiantaethau partner yn dda ar lefel unigol ac ar lefel sefydliad, er gwaethaf rhai heriau wrth ymgysylltu'n effeithiol ar lefel strategol, ac felly dylai fod yn fanteisiol, o ran yr gwaith cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y flwyddyn i ddod, pe bai Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn cael ei benodi'n aelod cyswllt o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

28 Nododd AGGCC gynnydd da iawn wrth ddarparu gwasanaethau plant a chanlyniadau cadarn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Cyngor wedi rhoi dulliau gweithredu ar waith â'r nod o wella perfformiad gwael yn y gorffennol mewn perthynas â chynlluniau iechyd, deintyddol ac addysg bersonol i blant sy'n derbyn gofal. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, roedd newid yn dechrau cael effaith ar archwiliadau iechyd a deintyddol. Fodd bynnag, mae'r ddau faes hyn ar eu hôl hi o gymharu â chyfartaledd Cymru. Mewn perthynas ag archwiliadau iechyd bu cynnydd o 38.4 y cant i 73.5 y cant; a gwellodd archwiliadau iechyd ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 59.8 y cant. Gwellodd y Cyngor ei berfformiad yn sylweddol gan sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun addysg bersonol ac ar 100 y cant, mae hyn gryn dipyn uwchlaw cyfartaledd Cymru.

29 Canfu arolygiad AGGCC yn 2014-15 o Wasanaeth Maethu Sir Ddinbych fod grŵp sefydlog o ofalwyr maeth yn y sir a barnwyd bod morâl ymhlith gofalwyr maeth yn dda. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda chynghorau eraill yn y Gogledd i sefydlu dull rhanbarthol o recriwtio gofalwyr maeth.

30 Gwellodd canlyniadau i bobl sy'n gadael gofal. Drwy gynnwys y tîm 14+ a'r fforwm rhianta corfforaethol, mae gwaith ymgysylltu cadarnhaol yn cael ei wneud a chafwyd rhywfaint o lwyddiant o ganlyniad i wasanaethau amrywiol y Cyngor wrth ddarparu opsiynau i'w bobl iau sy'n derbyn gofal, gan gynnwys cyfleoedd am gyflogaeth a phrentisiaethau. Gwnaed cynnydd mawr o ran y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol a gyflawnwyd gan y garfan fach (pedwar) o blant 16 oed sy'n derbyn gofal sef 438.50 o bwyntiau, gan adlewyrchu cynnydd o 168 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a hon oedd y sgôr uchaf yn y Gogledd ac roedd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Dangosir rôl y Cyngor fel y 'rhiant corfforaethol' ar gyfer plant a phobl ifanc drwy'r Fforwm Rhianta Corfforaethol, lle mae uwch reolwyr ac aelodau etholedig yn craffu ar ganlyniadau i bobl ifanc ac yn herio perfformiad. Ychwanegir at hyn drwy sefydlu trefniadau gwell ar gyfer sicrhau ansawdd drwy ymgysylltu'n well â phobl ifanc a gofyn am eu barn.

31 Yn ystod 2015-16, cynhaliodd AGGCC arolygiad o Wasanaethau Maethu mewnol Sir Ddinbych. Mae canfyddiadau arolygiadau o awdurdodau lleol unigol ac adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC ar gael ar wefan AGGCC.

32 Fel rhan o waith Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol Swyddfa Archwilio Cymru ar draws y chwe Chyngor yn y Gogledd, gwnaethom lunio dogfen i'r Cyngor a oedd yn cyflwyno'r canlynol:

- y galw yn y dyfodol am wasanaethau cymdeithasol yn Sir Ddinbych drwy feincnodi amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer plant a phobl hŷn; a
- chyfres o ddadansoddiadau ar ffurf graff a oedd yn cyfuno data ariannol a data perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn Sir Ddinbych dros sawl blwyddyn ac a oedd hefyd yn gosod y Cyngor yng nghyd-destun y 21 cyngor arall yng Nghymru.

33 Nid oedd unrhyw argymhellion na chasgliadau o'r gwaith hwn gan ein bod wedi rhoi pecyn data i bob cyngor a oedd yn dangos y wybodaeth o safbwynt gwerth am arian a hwyluso gweithdy ar gyfer y Gogledd i gyd i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch reolwyr allweddol. Cawsom adborth cadarnhaol ar yr allbwn ac rydym yn aros i weld sut y bydd y Cyngor yn defnyddio'r dull gweithredu hwn fel rhan o'i brosesau herio mewnol.

## Mae'r Cyngor yn parhau i lunio gwerthusiadau cytbwys a hyddysg o'i berfformiad ac yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009

34 Mae'r Cyngor, fel mewn blynyddoedd blaenorol, wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur a daeth Tystysgrif Asesiad Gwella yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Hydref 2015 i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur.

35 Mae trefniadau Herio Gwasanaeth y Cyngor wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn ac yn parhau i ddarparu datganiadau sefyllfa cynhwysfawr a manwl i Aelodau etholedig a rheolwyr gan ddefnyddio'r data perfformiad sydd ar gael a chynnydd prosiectau mawr. Fodd bynnag, o ran pwyllgorau craffu'r Cyngor, mae cofnod presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd herio gwasanaethau wedi bod yn amrywiol yn ystod 2015. Yn aml, yr unig her yw'r un a ddaw oddi wrth uwch aelodau o staff a rhai Aelodau etholedig. Fel y nodwyd gennym yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd, mae'r drefn o herio gwasanaethau yn rhan bwysig o broses hunanwerthuso'r Cyngor, gan alluogi uwch reolwyr ac Aelodau etholedig i ddeall yn well pa mor dda y mae pob gwasanaeth yn perfformio yn erbyn targedau ac yn y cyd-destun cenedlaethol, ac i nodi'r hyn sydd angen ei wneud mewn meysydd nad ydynt yn perfformio cystal. Er mwyn i drefniadau Herio Gwasanaethau'r Cyngor barhau i gyflawni'r rôl bwysig hon mae angen i lefel presenoldeb Aelodau ddychwelyd i'w lefel flaenorol.

36 Mae'n ofynnol i'r Cyngor hefyd baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Daeth Tystysgrif Cynllun Gwella yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mai 2015 i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur.

## Mae dangosyddion cenedlaethol a safonau perfformio'r Cyngor ei hun yn parhau i roi darlun cywir o berfformiad

37 Gwaethygodd perfformiad y Cyngor yn 2014-15 fymryn bach, gydag 14 o'r 25 o'r dangosyddion perfformiad statudol o fewn y chwartel uchaf. Fel yn 2013-14, dim ond pedwar o'r 25 o fesurau statudol ar gyfer Cymru gyfan oedd yn y chwartel isaf a pharhaodd y Cyngor i gyflawni gwelliannau ar draws sawl un o'i feysydd gwasanaeth, megis lleihau gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi hyd yn oed yn fwy. Mae'r Cyngor wedi parhau i wrthod proses o bennu targedau sy'n seiliedig ar welliant graddol o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol o blaid proses sy'n seiliedig ar gyflawni'r 'trothwy rhagoriaeth'. Mae trothwyon rhagoriaeth fel arfer yn seiliedig ar sicrhau bod perfformiad y Cyngor ymhlith y chwe chyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru.

38 Daeth ein tri Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf i'r casgliad bod tîm polisi canolog y Cyngor yn parhau i oruchwylio, cydgysylltu, a rheoli perfformiad yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gallu parhau i weithredu system rheoli perfformiad gyson a ddeellir yn glir. Mae hyn yn wir o hyd. Atgyfnerthwyd ansawdd y gwaith a gynhyrchwyd gan y tîm polisi canolog ymhellach yn ystod 2015 drwy gyflwyno System Rheoli Perfformiad newydd.

## Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r tangyflawni blaenorol a gofnodwyd wrth ddarparu tai fforddiadwy a datblygu strategaeth tai Cyngor newydd

39 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarn yn 2014-15 i geisio sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy. Tan eleni, roedd y Cyngor wedi methu'n gyson â chyflawni ei dargedau ers 2011 a'i berfformiad ef oedd yr un gwaethaf yng Nghymru yn 2013-14. Yn 2013-14, o blith y 2,416 o gartrefi fforddiadwy a adeiladwyd yng Nghymru, dim ond 16 ohonynt a gwblhawyd yn Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella ei berfformiad ac ad-drefnwyd y gwasanaeth tai yn ddiweddar gyda Phennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, Asedau a Thai, yn cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar ddarparu tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych. Yn 2014-15, cwblhawyd cyfanswm o 74 o dai fforddiadwy yn Sir Ddinbych, er nad yw'n debygol o hyd y caiff y targed cynllun corfforaethol o 570 o gartrefi fforddiadwy newydd i'w cwblhau rhwng 2012 a 2017 ei gyflawni.

40 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r Strategaeth Tai bresennol yn nodi'r rolau na'r cyfrifoldebau am gyrraedd y targed cartrefi fforddiadwy yn ddigon clir ac mae grŵp Gorchwyl a Gorffen o aelodau etholedig a swyddogion wedi bod yn datblygu strategaeth tai fforddiadwy newydd. Cymeradwywyd y strategaeth tai newydd gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2015 ac mae cynllun gweithredu manwl yn nodi cyfres o fesurau a ddylai, os caiff pob un ohonynt eu rhoi ar waith yn llwyddiannus, sicrhau cynnydd sylweddol o ran cynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn Sir Ddinbych dros y pum mlynedd nesaf.

41 Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, mae Blaenoriaeth Gwella'r Cyngor o ran tai yn ehangach na darparu tai fforddiadwy yn unig. Cymerodd y Cyngor gamau effeithiol i atal digartrefedd yn 2014-15 ac, fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd yn y chwartel uchaf o ran perfformiad yng Nghymru o hyd. Roedd nifer y diwrnodau a gymerwyd i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl hefyd yn isel ac yn cynrychioli perfformiad chwartel uchaf ymhlith cynghorau yng Nghymru.

## Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu modelau amgen o ddarparu gwasanaethau ac ond newydd ddechrau datblygu fframwaith strategol priodol a trefniadau monitro a chraffu ar berfformiad

42 Gyda'r posibilrwydd o doriadau ariannol parhaus, mae mwy o gynghorau yn ystyried y posibilrwydd o wneud newidiadau sylweddol i'r dulliau o ddarparu gwasanaethau er mwyn cyflawni mwy o ddiogelwch ariannol ac er mwyn diogelu gwasanaethau. Mae'n bwysig bod cynghorau yn gwneud y penderfyniadau hyn gydag ystod gyfan o wybodaeth yn ymwneud ag opsiynau darparu gwasanaethau a bod cryfderau a gwendidau pob opsiwn yn cael eu trafod yn eu cyd-destun. Mae angen i'r drafodaeth hon gael ei chynnal ar lefel swyddogion ac Aelodau ynghyd â dull ymgynghori cadarn â'r cyhoedd.

43 Gellir cyflwyno modelau amgen o ddarparu gwasanaethau ar sawl ffurf, a gall gwerthoedd penodol cyngor bennu pa rai a ddewisir. Er enghraifft, gallai dull 'cyngor comisiynu' olygu sefydlu amrywiaeth o gontractau gyda'r sector preifat ar gyfer darparu gwasanaethau yn yr hirdymor. Ceir enghraifft hefyd o'r rhwydwaith o 'gynghorau cydweithredol' sy'n cynnal cyfres o brosiectau i ystyried ac ymgorffori ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau mewn ymarfer a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau.

44 Mae pob un o'r modelau hyn yn dwyn risgiau cysylltiedig sydd angen eu nodi pan gaiff opsiynau eu hystyried a rhaid rhoi trefniadau ar waith i'w rheoli wrth iddynt gael eu datblygu a'u rhoi ar waith. O gofio'r ystod eang o opsiynau posibl, byddai'n fuddiol i'r Cyngor gadarnhau ei ddewisiadau ar gyfer gwasanaethau penodol cyn dechrau ar waith ymchwil cychwynnol - yn syml, gallai hyn fod yn ddatganiad o natur y trefniadau na fyddai yn eu hystyried.

45 Mae rhesymau a ffactorau gwahanol wedi cyfrannu at ystyried ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r prosiect SARTH na chafodd ei roi ar waith eto[3] gyda chynghorau cyfagos a Chymdeithasau Tai lleol yn gwthio am newid i system ddyrannu tai cymdeithasol mwy modern ac effeithiol, ac mae pwysau unedau gofal preswyl o bobl sy'n heneiddio yn golygu bod y Cyngor yn edrych ar gynlluniau tai gofal ychwanegol a ddarperir gan ddarparwyr amgen.

3 Prosiect partneriaeth yw SARTH (Un Llwybr Mynediad at Dai) rhwng pob landlord cymdeithasol mawr yn y Gogledd-ddwyrain, yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Cyngor Bwrdeistref Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Nod cyffredinol SARTH yw darparu llwybr mynediad cyffredin at ystod o opsiynau tai fforddiadwy sy'n dryloyw, cyfreithlon, effeithlon a hygyrch i bob rhan o'r gymuned. Drwy fframwaith dyrannu cyffredin bydd partneriaid yn rhannu un gofrestr ac felly dim ond un cais y bydd angen i ymgeisydd ei wneud i gael mynediad at y system gyfan. Bydd pob partner ag eiddo mewn ardal a ddewisir gan ymgeisydd yn ymwybodol o'r cais ac yn gallu rhoi'r flaenoriaeth briodol i'r ymgeisydd yn y broses ddyrannu.

46 Mae'r Cyngor eisoes wedi datblygu a dechrau sefydlu nifer o ffurfiau amgen ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau partneriaeth â'r sector preifat a gwasanaethau a rennir â chynghorau lleol eraill a'r trydydd sector, fel cymdeithasau tai lleol. Er enghraifft, ym mis Ebrill 2015 aeth y Cyngor ati i drosglwyddo staff Refeniw a Budd-daliadau i bartneriaeth newydd gyda'r cwmni preifat CIVICA. Mae'r Cyngor yn datblygu modelau darparu gwasanaethau diwygiedig fesul gwasanaeth, lle y gellir sefydlu achosion busnes, yn hytrach na bod yn rhan o adolygiad systematig o opsiynau ar gyfer dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau.

47 Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau yn Sir Ddinbych, fel Gwasanaethau Hamdden, yn dangos eu bod, ar lefel gwasanaeth, eisoes yn cynnal adolygiadau systematig cadarn o opsiynau ar gyfer dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau. Yn ein Hadroddiad Cenedlaethol ar Wasanaethau Hamdden[4] gwnaethom nodi sut yr aeth y Cyngor ati, fel rhan o'i nod strategol 'y bydd Sir Ddinbych erbyn 2020 yn enwog am gyfleoedd hamdden hygyrch, o ansawdd uchel sy'n denu lefelau uchel o gyfranogiad ac sy'n gwella lles ei drigolion a'i ymwelwyr', i gynnal 14 o weithdai i randdeiliaid a chwblhau dadansoddiad cost a budd manwl, gan gynnwys cymharu'r farchnad yn lleol. Mae hyn wedi rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am berfformiad a boddhad cwsmeriaid ynghylch pob un o'i gyfleusterau hamdden ac wedi caniatáu iddo ddatblygu cynlluniau gweithredol manwl ar gyfer cyfleusterau unigol i gyflawni ei nod o sicrhau bod gwasanaethau'n hunan-ariannu ac yn ganolog i wella iechyd trigolion yn Sir Ddinbych.

48 Tan fis Rhagfyr 2015, nid oedd gan y Cyngor ddulliau corfforaethol effeithiol ar waith i fonitro trefniadau presennol ar gyfer dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau ond mae bellach wedi cytuno ar fframwaith corfforaethol ar gyfer darparwyr gwasanaethau amgen. Mae'r fframwaith yn nodi'n glir y gofynion ar gyfer sicrhau bod canllawiau perthnasol ar waith, y trefniadau ar gyfer ystyried a gweithredu newidiadau, egluro rolau ar gyfer y rhai dan sylw, y trefniadau monitro a llywodraethu, yn ogystal â'r elfennau cyfreithiol angenrheidiol a'r isafswm lefelau monitro sy'n ofynnol yn dibynnu ar werth y gwasanaethau a ddarperir.

49 Nid yw'r fframwaith monitro newydd ar gyfer dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau ar waith yn llawn eto ac mae trefniadau craffu cyhoeddus cyfredol yn wan. Er enghraifft, nid yw'r bartneriaeth perfformiad â CIVICA ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau, er ei bod yn destun adolygiad misol gan Fwrdd CIVICA a'r Cyngor ar y cyd, sef proses flynyddol o herio gwasanaethau, ac adroddiad i grŵp gorchwyl a gorffen, wedi elwa eto ar unrhyw waith craffu cyhoeddus ar berfformiad gan Aelodau drwy naill ai ei bwyllgorau craffu neu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i atgyfnerthu ei drefniadau craffu a monitro cyhoeddus ac mae bellach yn gweithredu'r fframwaith monitro newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau amgen.

4 **'Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden'**, Rhagfyr 2015

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad Sir Ddinbych

50 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

51 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor arnynt. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith.
Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

52 Nododd y Comisiynydd feysydd i'w gwella yn ei adroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddodd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain ar gael ar wefan y Comisiynydd.

# Y defnydd o adnoddau

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol ond mae angen iddo atgyfnerthu ei ddull o gynhyrchu incwm

53 Ar 27 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn.

### Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol

54 Mae systemau rheoli ariannol da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon. Mae systemau rheoli ariannol da:

- yn helpu awdurdodau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor;
- yn helpu awdurdodau i ddarparu gwasanaethau i gyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol;
- yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau llywodraethu corfforaethol da;
- yn ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol ag â rheoli arian;
- yn sail i ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau;
- yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; ac
- yn ddisgyblaeth reoli allweddol.

55 Sicrheir cydnerthedd ariannol pan fydd gan awdurdod systemau a phrosesau cadarn i reoli ei risgiau a'i gyfleoedd ariannol yn effeithiol a sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog.

56 Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol yn y Cyngor. Mae ei weledigaeth a'i nodau cyffredinol wedi eu cyfleu'n glir drwy ei Gynllun Corfforaethol 2012-17 sy'n manylu ar y saith amcan gwella y mae'r Cyngor yn gobeithio eu cyflawni ar gyfer ei ddinasyddion. Mae gan y Cyngor ddull cadarn ar waith o sicrhau bod amcanion gwella yn gysylltiedig â chynlluniau gwasanaethau a'u bod wedi'u diogelu ganddynt, a bod cyllidebau a chynlluniau ariannol wedi'u pennu yn unol â chyflawni'r amcanion hyn. Mesurir cynnydd drwy fframwaith monitro perfformiad y Cyngor a chyflwynir adroddiad arno bob blwyddyn drwy Ddogfen Gyflawni Flynyddol y Cyngor.

57 Mae nifer o bolisïau sy'n cefnogi trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor, a nodir cyfrifoldebau o ran pennu'r gyllideb, ei monitro ac adrodd arni. Mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig (y Cynllun) sydd wrthi'n cael ei ddiweddaru. Mae fersiwn 2014 yn nodi sut yr ymdrinnir â'r bwlch mewn arbedion sy'n weddill yn 2015-16 a thu hwnt.

58 Newidiodd dull y Cyngor o bennu ei gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16. Er bod y Cyngor yn y gorffennol wedi mynd ati i leihau costau'n gynyddrannol, ar gyfer 2015-16, cafodd gwasanaethau eu hadolygu o dan y rhaglen Rhyddid a Hyblygrwydd er mwyn cyflawni targed i arbed £18 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r broses gyllidebol hon yn canolbwyntio ar yr hyn y mae gwasanaeth yn ei wneud a faint mae'n ei gostio, ac yn ceisio dadansoddi p'un a yw'r gwasanaeth a ddarperir yn statudol, yn gyson â blaenoriaeth gorfforaethol neu'n ddewisol.

## Mae gan y Cyngor reolaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod ei brosesau a'i reolaeth ariannol yn gadarn, ond mae angen iddo atgyfnerthu ei ddull o gynhyrchu incwm

59 Mae cynlluniau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni.

60 Roedd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu datblygu ar gyfer 2015-16 ym mhob un o adrannau'r Cyngor. Mae'r cynlluniau yn cynnwys disgrifiadau clir o ble y câi'r arbedion eu gwneud. Mae Cynllun Arbedion Sir Ddinbych yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol. Mae Cynllun Arbedion y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn rhoi sylw priodol a pherthnasol i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol. Roedd y tybiaethau a wnaed gan y Cyngor wrth nodi'r diffyg yn gynhwysfawr a rhesymol ac wedi'u hategu gan ddata cadarn.

61 Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn adolygu lefel ei gronfeydd wrth gefn a'i ddarpariaethau o ran cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a rhai cyffredinol, proses a ymgorfforwyd yn y prosesau pennu cyllideb a gweithdai aelodau.
Mae anghysondeb rhwng y strategaeth ar gyfer cronfeydd wrth gefn fel y'i nodir yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig 2014-18 a'r dull o ymdrin â chronfeydd wrth gefn a fabwysiedir wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2015-16. Mae angen ymdrin â'r datgysylltiad hwn er mwyn sicrhau bod dull y Cyngor yn gyson a bod ei bolisïau a'i weithdrefnau allweddol yn cysoni'n effeithiol.

62 Nid oes gan y Cyngor bolisi ffurfiol ychwaith ar gynhyrchu/codi incwm, ac nid oes ganddo gofrestr o'r taliadau a bennir gan y priod adrannau. Er i'r broses o godi taliadau gael ei thrafod rywfaint wrth bennu'r gyllideb, nid yw'n gyson ym mhob gwasanaeth ac mae angen ei ffurfioli er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddull darbodus ac ystyriol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol a chaiff y rhai sy'n gyfrifol am reoli perfformiad ariannol eu dwyn i gyfrif

63 Mae gan y Cyngor fframwaith cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol. Mae system rhagweld, monitro ac adrodd newydd y Cyngor, 'Cynllunio Cydweithredol' yn effeithiol o ran sicrhau dull cyson o reoli'r gyllideb ar draws y Cyngor. Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf mae 'Cynllunio Cydweithredol' yn sicrhau dull mwy cyson o reoli'r gyllideb ar draws y Cyngor drwy goladu gwybodaeth gyllidebol ar system ar-lein a lleihau'r angen i ddefnyddio amrywiol daenlenni o fewn yr adrannau gwasanaeth gwahanol.

64 Mae'r Cabinet yn cael adroddiad misol ar y gyllideb. Mae'r adroddiad yn dangos yr alldro rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn (yn hytrach na'r sefyllfa ar adeg benodol) o gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Mae'r adroddiadau misol yn cynnwys manylion unrhyw amrywiad sylweddol mewn gwariant ynghyd â chamau cywirol.

# Llywodraethu

## Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn ategu proses gwneud penderfyniadau gadarn ac mae prosesau corfforaethol digonol ganddo i ymateb i adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol

### Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn ategu proses gwneud penderfyniadau gadarn, ond mae presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd craffu wedi lleihau'n sylweddol

65 Mae cydberthnasau rhwng cynghorwyr a swyddogion yn adeiladol ac fe'u hategir gan hyfforddiant, canllawiau a disgrifiadau rolau priodol. Mae cynghorwyr yn ymddwyn yn briodol ac yn gyffredinol yn ceisio bod yn adeiladol mewn cyfarfodydd pwyllgor, hyd yn oed pan fyddant yn anghytuno â'i gilydd. Prin iawn fu'r achosion o dorri rheolau Cod Ymddygiad yr Aelodau yn Sir Ddinbych dros y blynyddoedd diwethaf. Disgwylir i bob cynghorydd gael hyfforddiant yn y Cod Ymddygiad. Yn briodol ddigon, dim ond ar ôl cael hyfforddiant penodol y gall cynghorwyr gymryd rhan yn y Pwyllgor Trwyddedu a Chynllunio. Nod y Cyngor yw darparu hyfforddiant a datblygiad yn seiliedig ar anghenion ac mae cynghorwyr yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch yr hyfforddiant a gânt.

66 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu set briodol o ganllawiau, o fewn ei gyfansoddiad ac mewn mannau eraill, yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer rolau allweddol pwyllgorau craffu. Mae'n sicrhau bod hyn yn gyfredol ac mae wedi, er enghraifft, datblygu disgrifiad rôl ar gyfer y cadeirydd ac aelodau o'r pwyllgorau.

67 Mae'r Cabinet yn cyfarfod yn fisol a threfnir i bob un o'r tri Phwyllgor Craffu gyfarfod bob chwe wythnos. Mae gan bob pwyllgor flaenraglen waith wedi'i diffinio'n dda sy'n ystyried eitemau ar flaengynllun y Cabinet ac mae'n adolygu hwn ym mhob cyfarfod. Mae gan y Cyngor ffocws clir o ran pennu'r rhaglen waith sy'n ystyried y canlynol:

- blaenoriaethau corfforaethol a chyflawni'r Cynllun Corfforaethol;
- arbedion cyllidebol a'u heffaith ar Sir Ddinbych a'i thrigolion; a
- blaenoriaethau mawr eraill y gall y broses graffu ddylanwadu arnynt a sicrhau newid.

Mae proses werthuso strwythuredig ar waith sy'n galluogi pwyllgorau craffu i sicrhau bod eu gweithgareddau'n canolbwyntio ar faterion pwysig fel cynnydd a wneir ar brosiectau ac adroddiadau ar berfformiad y Cyngor.

68 Mae cyfran o waith pwyllgorau craffu yn golygu gwneud gwaith craffu cyn penderfynu lle mae pwyllgorau yn ystyried materion cyn iddynt gyrraedd y Cabinet er mwyn i benderfyniadau gael eu gwneud. Mae nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen, fel grŵp gorchwyl a gorffen 'Torri'r Brethyn' sy'n ystyried arbedion effeithlonrwydd, yn ymgymryd â'r rôl hon. Mae defnyddio proses graffu cyn penderfynu yn helpu i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn ystyried ystod eang o safbwyntiau gwleidyddol ac yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai'r pwyllgor craffu yn 'galw i mewn' benderfyniadau'r Cabinet, gan gynnal llif busnes y Cyngor yn ddidrafferth.

69 Yn gyffredinol mae ansawdd y papurau a gyflwynir i'r pwyllgorau craffu yn dda. At hynny, mae cyfraniad helaeth cynghorwyr, er enghraifft, drwy'r rhan a chwaraeant mewn gweithdai ar y gyllideb, yn sicrhau'n gyffredinol bod yr argymhellion mewn papurau pwyllgorau yn debygol o gael lefel fawr o gefnogaeth.

70 Mae lefel yr her ac ansawdd y drafodaeth yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu yn amrywio. Fodd bynnag, rydym wedi arsylwi ar nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys her gadarn a hyddysg i'r staff neu i aelodau'r Cabinet a oedd yn cyflwyno'r papurau.

71 Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Gweithredu Gwella Craffu, y caiff ei gynnydd ei fonitro'n rheolaidd. Serch hynny, mae rhai agweddau ar y trefniadau craffu, er eu bod wedi cael eu hatgyfnerthu, yn parhau i fod yn anghyson fel cyflwyno adroddiadau, sydd ar adegau yn cael eu cyflwyno gan yr aelod perthnasol o'r cabinet, ac ar adegau eraill gan y swyddog arweiniol (tra bod yr Aelod Cabinet yn bresennol). Mae hyn yn drysu llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb.

72 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn datblygu'n dda ac yn systematig wrth sicrhau ei hun bod argymhellion mewn adroddiadau Archwilio Mewnol wedi cael eu rhoi ar waith. Caiff yr aelodau perthnasol o'r Cabinet, yn hytrach na'r swyddogion, eu dwyn i gyfrif gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac mae'r cydbwysedd o gyfraniadau gan yr aelod o'r Cabinet yn briodol.

73 Mae'r lefel presenoldeb mewn cyfarfodydd craffu ac yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi lleihau ac mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon. Mae uwch swyddogion ac Aelodau etholedig y gwnaethom siarad â hwy yn gofidio am y lleihad hwn mewn presenoldeb ac mewn rhai cyfarfodydd a arsylwyd gennym dim ond digon i wneud cworwm oedd yno. Mae dadansoddi lefelau presenoldeb yn dangos bod y lleihad hwn yn y nifer sy'n cyfranogi wedi bod yn broblem gynyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi ceisio cynnal rhai cyfarfodydd craffu ar adegau gwahanol o'r dydd ond ni wnaeth hyn wella lefelau presenoldeb. Mae'r rhesymau dros y lleihad hwn yn aneglur ond mae angen gwrthdroi'r duedd er mwyn cynnal y lefel ofynnol o sicrwydd ynghylch trefniadau craffu'r Cyngor.

## Mae gan y Cyngor brosesau corfforaethol digonol ar gyfer ymateb i adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol

74 Mae gan y Cyngor brosesau corfforaethol digonol ar gyfer ymateb i adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, olrhain y broses o weithredu argymhellion a chyflwyno adroddiadau ar hyn yng nghyfarfodydd y Cyngor. Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol yn 2015 cynigiwyd y dylai'r Cyngor adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion ym mhum Adroddiad Cenedlaethol 2014-15 yr Archwilydd Cyffredinol ar Lywodraeth Leol a rhoi'r gwelliannau ar waith fel y bo angen.

75 Trafododd y Cyngor rai o'r adroddiadau unigol mewn pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a lluniodd adolygiad cynhwysfawr a chynllun gweithredu ar gyfer pob adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ym mis Hydref 2015. Nid yw'r Cyngor wedi adrodd yn ôl eto i'r pwyllgor priodol ar gynnydd a wnaed gyda'r cynllun gweithredu.

76 Ers i'r Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gael ei gyhoeddi mae pum Adroddiad Cenedlaethol arall gydag argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor wedi cael eu cyhoeddi. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 3.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Hugh Evans - Arweinydd
Dr. Mohammed Mehmet - Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1YN

27 Tachwedd 2015

Annwyl Gynghorydd Evans a Dr Mehmet

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Ddinbych 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Cyngor Sir Ddinbych â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi ei chwblhau.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforethol yn yr adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 28 Medi 2015.

### Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

Mae ystyriaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon a hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

### Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2015.

### Nid yw'r gwaith a wnaed hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol.

Bydd adroddiad manylach ar waith ardystio grantiau yn dilyn yn 2016 unwaith y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**Derwyn Owen**
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru | A1 | Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:<br>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;<br>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; ac<br>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd - y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael. |
| | | A2 | Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun. |
| | | A3 | Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig. |
| | | A4 | Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr. |
| | | A5 | Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig. |
| | | A6 | Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol. |
| | | A7 | Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; a<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol. |
| | | A8 | Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol. |
| | | A9 | Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A1 | Egluro natur a gweithrediad consortia.<br>Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia yn cael eu darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd (mae gwasanaethau a ddarperir o dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd. |
| | | A2 | Canolbwyntio ar ganlyniadau drwy waith cynllunio tymor canolig.<br>Nodwyd gennym fod ffocws ar gamau gweithredu byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn rhwystro'r gwaith o ddatblygu consortia rhanbarthol effeithiol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Gan na chaiff unrhyw raglen bosibl i ad-drefnu awdurdodau lleol ei rhoi ar waith yn llawn tan 2020, dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu consortia rhanbarthol ymhellach, pennu eu cwmpas a'u cyllid, wedi'u cysylltu ag amcanion strategol priodol. |
| | | A3 | Datblygu cydberthnasau mwy cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion.<br>Cyfrannodd llawer o bartneriaid gwella ysgolion at y gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond nodwyd gennym nad oedd hyn wedi arwain at ddatblygu cydberthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arfer a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o fynd i'r afael â mater neu gallai fod ganddo gyfrifoldeb gweithredol am ddatblygu polisi).<br>• Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod cyd-ddibyniaeth yr holl bartneriaid wrth gyflawni eu rolau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o wneud y canlynol:<br>– rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau sy'n ymwneud â gwella ysgolion ac ymgynghori yn eu cylch;<br>– datblygu cydberthnasau cydweithredol sy'n seiliedig ar atebolrwydd a rennir; ac<br>– chynnal adolygiadau system gyfan a chysoni'r ddealltwriaeth o gonsortia rhanbarthol a sefyllfa consortia rhanbarthol ym mhob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A4 | Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r dalent orau.<br>Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru oll wedi'i chael hi'n anodd recriwtio uwch arweinwyr ar gyfer addysg a nodwyd gennym nad oes fawr ddim wedi'i wneud i fynd i'r afael â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithredu i wneud rolau arwain ym maes addysg yn fwy deniadol er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf talentog ar gyfer y system gwella ysgolion; a<br>• dylai awdurdodau lleol gydweithredu er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad priodol ar waith ar gyfer uwch arweinwyr. |
| | | A5 | Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol.<br>Er bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud, nodwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol cwbl effeithiol eto (paragraffau 3.2 i 3.36). Felly, rydym yn argymell y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol wneud y canlynol:<br>• gwneud gwell defnydd o hunanwerthusiadau o'u perfformiad a'u trefniadau llywodraethu i ategu gwaith cynllunio busnes a'u hadolygiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella prosesau gwella perfformiad gan gynnwys gwella prosesau cynllunio busnes, defnyddio mesurau perfformiad clir a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau rheoli a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau bod gweithgarwch cyllidebu, monitro ariannol ac adrodd yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys arian grant a gaiff ei wario drwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd y consortia yn gyffredinol yn ogystal â gwaith craffu perfformiad a wneir gan awdurdodau unigol, a all gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau a threfniadau consortia yn agored ac yn dryloyw;<br>• adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a mynd i'r afael ag ef; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod llinellau atebolrwydd yn glir a bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rolau a gyflawnir; ac<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â phob rhanddeiliad allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol mewn Cynghorau yng Nghymru | A1 | Gwella arweinyddiaeth gorfforol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu drwy wneud y canlynol:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc ac sydd â chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod diogelu arweiniol; ac<br>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddaru yn rheolaidd. |
| | | A2 | Sicrhau bod polisi cwbl gorfforaethol ar ddiogelu sy'n cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn cynnig cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ym mhob rhan o'r Cyngor. |
| | | A3 | Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr mewn modd diogel drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfiaeth â pholisïau recriwtio'n ddiogel yn cwmpasu'r holl wasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system cydymffurfiaeth gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfiaeth o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; ac<br>• gofyn am arferion recriwtio'n ddiogel ymhlith partneriaid yn y trydydd sector ac ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor a ategir gan gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. |
| | | A4 | Sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff a phob aelod a phartner perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod ei gwmpas yn cael ei ymestyn i gynnwys holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel rhywbeth safonol mewn rhaglenni sefydlu;<br>• llunio system gwbl gorfforaethol i nodi, olrhain a monitro cydymffurfiaeth o ran cael hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor ac ymhlith aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; ac<br>• mynnu bod staff perthnasol, mewn sefydliadau partner sydd wedi'u comisiynu i weithio i'r Cyngor drwy ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, yn cael hyfforddiant diogelu. |
| | | A5 | Wrth ddiwygio'r canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol o ran rolau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig o fewn gwasanaethau addysg a'r unigolyn a enwir ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hyrwyddo diogelwch plant. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol mewn Cynghorau yng Nghymru | A6 | Gwella atebolrwydd am weithgarwch diogelu corfforaethol drwy gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd i'r pwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor sy'n cynnwys y canlynol:<br>• meincnodi a chymariaethau ag eraill;<br>• casgliadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad sy'n seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; ac<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor. |
| | | A7 | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i brofi systemau a chynnal adolygiadau o gydymffurfiaeth o ran arferion diogelu'r Cyngor. |
| | | A8 | Sicrhau y caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu plant eu hystyried ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth wrth ddatblygu cynlluniau rheoli risg a chytuno arnynt ym mhob rhan o'r Cyngor. |
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 | Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â materion pobl hŷn drwy wneud y canlynol:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau pobl hŷn.<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; ac<br>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddaru yn rheolaidd. |
| | | A2 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n cwmpasu gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i faes iechyd a gofal cymdeithasol; ac<br>• gweithio gyda thrigolion a phartneriaid i ddatblygu cynlluniau ac wrth ddatblygu blaenoriaethau a chytuno arnynt. |
| | | A3 | Ymgysylltu'n well a phobl hŷn a gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei lledaenu iddynt drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol a'u bod yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu cael. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A4 | Sicrhau y caiff perfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol eu rheoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y rhai y tu allan i faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; ac<br>• nodi mesurau i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith fel y gellir deall effaith toriadau cyllidebol a chefnogi gweithgarwch goruchwylio a chraffu. |
| | | A5 | Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb drwy wneud y canlynol:<br>• nodi sut y bydd newidiadau i wasanaethau neu doriadau mewn cyllidebau yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gymerir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi nifer y bobl y gallai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt drwy nodi'r effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig; ac<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddeall yr effaith a gaiff newidiadau arfaethedig arnynt yn glir. |
| | | A6 | Gwella'r ffordd y rheolir y Gronfa Gofal Canolraddol a sicrhau ei bod yn cael mwy o effaith drwy wneud y canlynol:<br>• pennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel y gellir barnu effaith y rhain dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel y gellir gwerthuso prosiectau a ariennir ar sail gyfatebol yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa rai sy'n cael yr effaith gadarnhaol fwyaf a faint o gynlluniau sydd wedi'u prif ffrydio i gyllid craidd; ac<br>• ymgysylltu'n well â phob partner er mwyn sicrhau y caiff cymaint o bartneriaid â phosibl eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A1 | Gwella gwaith cynllunio strategol ym maes gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:<br>• pennu gweledigaeth gytûn y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor o fewn darpariaeth chwaraeon a hamdden y gymuned ehangach yn yr ardal; ac<br>• ystyried y potensial ar gyfer darparu gwasanaethau ar sail ranbarthol. |
| | | A2 | Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn nodi'r model cyflawni mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytûn a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden sy'n ystyried y canlynol:<br>• argaeledd cyllid cyfalaf a chyllid refeniw yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i wella prosesau cynhyrchu incwm a lleihau 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• dadansoddi cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau y caiff barn ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; ac<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |
| | | A3 | Sicrhau y caiff perfformiad gwasanaethau hamdden eu rheoli'n effeithiol drwy nodi cyfres o fesurau i alluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith. Dylai hyn gwmpasu perfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor a pherfformiad cyfleuster-benodol a chynnwys y canlynol:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• ansawdd cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• boddhad cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd – nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau/cyfleusterau, pryd y cawsant eu defnyddio, ac ati; ac<br>• effaith hamdden o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau ym maes iechyd y cyhoedd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A4 | Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:<br>• cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn helpu i sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; ac<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru